# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## DYDD GWENER, 2 GORFFENNAF 2021

## BWRDD STRYDLUN A PHEIRIANNEG Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: M.Harvey a/ac A.Wingrave

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

D.Griffiths, M.Roberts, A.Phillips, N.Headon a/ac C.Plowman

**Gwahoddiadau Craffu:**

Cynghorwyr: S.Penry and R.W.Wood

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd M Harvey yn Gadeirydd y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   **Penderfyniad:**

   Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 21 Mai, 2021.

4. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, caiff y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ei diwygio fel a ganlyn:

Cwmnïau i'w **hychwanegu** at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:
*Wales Environmental* (W040) - Categorïau 76, 94, 95
*Chillwise Services Ltd* (C072) - Categorïau 55, 56
*Phoenix Asbestos Recovery Ltd* (P052) - Categori 31
*Guardwatch Security UK Ltd* (G035) - Categori 3

Cwmni i'w **ychwanegu at gategori ychwanegol** ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:
*Neath Construction* (N011) - Categorïau 37, 38, 39, 40, 55, 56, 57, 58, 59

Cwmni i'w **dynnu oddi ar** y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (B032) - Categorïau 12, 23, 72, 84, 88, 89, 96, 102

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **CYLLID CYFALAF STRYDLUN 2021/22**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyir dyraniadau cyllid arian Gwelliannau i'r Strydlun a'r Amgylchedd a gynhwyswyd yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/2022, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar gynigion gwario mewn perthynas ag arian 'Gwella'r Strydlun a'r Amgylchedd' sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb gyfalaf.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12, 13 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

8. **GWELLIANNAU I GYFFORDD CASTELL-NEDD (WEDI'I EITHRIO O DAN BARAGRAFFAU 12, 14 A 15)**

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y byddent yn ystyried pryderon yr aelodau.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, rhoddir cymeradwyaeth i swyddogion gychwyn trafodaethau a chyflwyno cais am gyllid, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bydd datblygu'r cynnig ymhellach yn helpu i leihau tagfeydd, yn helpu ansawdd aer yn yr ardal ac yn rhyddhau tir datblygu yng Nghimla sydd ar hyn o bryd yn cael ei atal gan broblemau sy'n ymwneud â niferoedd cerbydau yn y gyffordd hon.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng nghofnod Rhif 10 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

10. **CYNNIG I ADNEWYDDU TRWYDDED DROS DRO I'R YSGRIFENNYDD TAI, CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL AR GYFER CANOLFAN BROFI CORONAFEIRWS GALW HEIBIO LEOL YM MAES PARCIO MILLAND ROAD, CASTELL-NEDD.**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig cymeradwyir yr amodau a'r telerau ar gyfer caniatáu adnewyddu'r drwydded dros dro fel y'i nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i ymrwymo i adnewyddu'r cytundeb trwydded dros dro ar gyfer meddiannu Maes Parcio Milland Road, Castell-nedd yn rhannol gan yr Ysgrifennydd Cymunedau Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**

Bydd caniatáu adnewyddu'r drwydded dros dro yn galluogi'r GIG i gynnal Profion Coronafeirws Lleol ar breswylwyr yn y Fwrdeistref Sirol.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith</u>:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

**CADEIRYDD**